



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru

Mai 2017

 Cadw

Datganiad o Ddiben

Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn egluro pam ei bod yn bwysig adnabod nodweddion hanesyddol a defnyddio hyn fel sail i waith cadwraeth, adfywio a chynllunio. Dengys sut y gall polisiâu a rhaglenni i reoli newid ddwyn ysbrydoliaeth o'r gorffennol er mwyn helpu i greu a chynnal mannau nodedig at y dyfodol.

Nid yw *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn pennu haen arall o weithgarwch dynodi neu ganiatâd, ond mae'n annog y defnydd gorau o'n hamgylchedd hanesyddol er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn golygu rheoli newid, nid ei atal. Cynlluniau datblygu lleol yw'r lle gorau i osod polisiâu am nodweddion hanesyddol lleol y gellir eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio neu eu llunio.

Canllawiau arfer gorau yw *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, sy'n ategu *Polisi Cynllunio Cymru*¹ a *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*.² Mae hefyd yn tanlinellu sut y gall dealltwriaeth o nodweddion hanesyddol gael ei defnyddio mewn sawl ffordd y tu hwnt i'r system gynllunio.

Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, ynghyd â *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*,³ yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny o dreftadaeth leol sydd o fudd mawr i gymunedau lleol, gan gynnwys y rhai nas dynodir am eu budd neu bwysigrwydd cenedlaethol arbennig.⁴

Anelir *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru* yn bennaf at adrannau cadwraeth, cynllunio, tai, adfywio a datblygu awdurdodau lleol. Bydd hefyd o ddiddordeb i gyrff cyhoeddus eraill, cymunedau lleol a sefydliadau trydydd sector, yn ogystal â pherchenogion, datblygwyr ac asiantau, sydd â rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o nodi, hyrwyddo a gofalu am nodweddion hanesyddol lleol. Er bod y canllawiau hyn yn amlinellu'r prif egwyddorion ar gyfer ystyried nodweddion hanesyddol, ni fwriedir iddynt fod yn becyn cymorth.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@cymru.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
ISBN digidol 978 1 4734 8709 3

OGI © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle y'i nodir. WG31145

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Llun y clawr: Canol tref hanesyddol Dolgellau (© Hawlfraint y Goron (2017) Cadw, Llywodraeth Cymru).

Cynnwys

Ffeithiau Cyflym

Cyflwyniad

I Beth yw Nodweddion Hanesyddol?

- 1.1 Beth i Edrych Amdano
- 1.2 Ffurf a Chynllun Cyffredinol Lle
- 1.3 Adeiladau
- 1.4 Tirweddau sy'n Newid
- 1.5 Hanes Cudd — Potensial Archeolegol
- 1.6 Straeon Pobl

2 Deall Nodweddion Hanesyddol

- 2.1 Asesiad Manwl
- 2.2 Ymgysylltu â'r Gymuned
- 2.3 Dechrau Arni
 - 2.3.1 Ffynonellau Gwybodaeth
 - 2.3.2 Pecynnau Cymorth
 - 2.3.3 Adroddiadau Nodweddion Hanesyddol
 - 2.3.4 Cyllid
 - 2.3.5 Beth i'w wneud â'ch Astudiaeth

3 Nodweddion Hanesyddol a Datblygu Cynaliadwy

- 3.1 Cydweithio'n Well: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 3.2 Rheoli Adnoddau Naturiol mewn Ffordd Gynaliadwy a Datganiadau Ardal
- 3.3 Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygu
 - 3.3.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol
 - 3.3.2 Cynlluniau Datblygu Lleol
 - 3.3.3 Canllawiau Cynllunio Atodol
 - 3.3.4 Cynlluniau Lleoedd
 - 3.3.5 Cynlluniau Meistr a Briffiau Datblygu
- 3.4 Dylunio
- 3.5 Cadwraeth
- 3.6 Adfywio

Atodiad

Defnyddio Nodweddion Hanesyddol — Diagram Cryno

Cyfeiriadau

Rhagor o Wybodaeth

Cysylltiadau

Ffeithiau Cyflym

- 1 Mae nodweddion hanesyddol yn helpu i wneud pob man yn unigryw.
- 2 Mynegir nodweddion hanesyddol drwy batrymau defnydd tir ac anheddiad, a thraddodiadau adeiladu.
- 3 Mae nodweddion hanesyddol i'w gweld ledled Cymru — o ddinasoedd a maestrefi i bentrefannau gwledig bach a thirweddau.
- 4 Drwy ddeall nodweddion hanesyddol, gallwn wneud penderfyniadau hyddysg am yr hyn a gadwn, sut y gofalwn amdano a sut i ddarparu ar gyfer newid.
- 5 Gall deall nodweddion hanesyddol annog cymunedau i gyfrannu at y gwaith o ofalu am eu hardal a rhydd gyfleoedd i feithrin sgiliau newydd.
- 6 Mae canllawiau cenedlaethol yn annog awdurdodau cynllunio i ddeall, cofnodi a defnyddio nodweddion hanesyddol fel rhan o'u sail dystiolaeth er mwyn llywio'r gwaith o reoli newid ac ysbrydoli gwaith adfywio ac adnewyddu.

Cyflwyniad ↵

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan hanfodol o'n treftadaeth ddiwylliannol gyffredin. Mae'n creu ein hymdeimlad o le ac yn cyfrannu at ein llesiant a'n hansawdd bywyd. Nodwyd bod rhai elfennau o'r amgylchedd hanesyddol o ddiddordeb neu o bwys cenedlaethol arbennig — ein henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau, gerddi a thirweddau cofrestredig. Fodd bynnag, mae a wnelo nodweddion hanesyddol â mwy na'r asedau hyn a gydnabyddir yn genedlaethol. Gall pethau cyffredin a bob dydd gyfrannu cymaint at nodweddion hanesyddol â hen adeilad crand. Mae hyn yn golygu y gall hyd yn oed rywle ag ychydig iawn o asedau hanesyddol dynodedig fod â nodweddion hanesyddol cyfoethog.

Mae nodweddion hanesyddol yn esgor ar hunaniaeth, yn creu ymdeimlad o berthyn ac yn cyfrannu at ansawdd y manau lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â hwy. Gall hefyd fod yn ased yng nghyd-destun bywiogrwydd economaidd ac adfywio.

Drwy astudio nodweddion hanesyddol, gallwn lunio sail dystiolaeth wrthrychol a all gael ei defnyddio at sawl diben gwahanol. Gall ysbrydoli gweithgarwch adfywio, cynllunio, datblygu a dylunio er mwyn helpu i gynnal natur unigryw leol. Gall ein helpu hefyd i wneud penderfyniadau deallus am yr hyn i'w gadw, sut i ofalu amdano a sut i ddarparu ar gyfer newid fel ein bod yn dathlu hunaniaeth lle ac yn gwneud y defnydd gorau o'i dreftadaeth. Drwy weithio gyda chymunedau lleol, gallwn ddysgu beth sy'n gwneud lle yn arbennig iddynt hwy ac annog pobl leol i ofalu amdano.

Gall deall nodweddion hanesyddol ein helpu wrth gynllunio'r Gymru rydym am fyw ynddi heddiw ac yn y dyfodol.

1. Beth yw Nodweddion Hanesyddol? ↵

Lluniwyd nodweddion hanesyddol lle gan weithgarwch pobl dros ddegau, cannoedd, neu hyd yn oed filoedd o flynyddoedd. Mae llawer o nodweddion unigryw lle yn deillio o'i hanes yn yr un ffordd ag y mae cymeriad unigolyn yn datblygu dros amser. Gall hyn gynnwys ei darddiad a chyfnodau arwyddocaol yn ei hanes — sut a pham y gwnaeth ddatblygu a newid. Gall hefyd gynnwys gweithgareddau a thraddodiadau penodol, cymunedau a phobl, neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â lle. Mae hyn oll yn cyfrannu at nodweddion hanesyddol: mae ganddynt waddol diriaethol o ran lliw a llun lle a gwaddol anniriaethol o ran yr enwau, straeon, celf a diwylliant sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae nodweddion hanesyddol yn gwneud pob man yn unigryw ac maent yn cyfrannu at ei arwyddocâd, yn enwedig i bobl leol.

1.1 Beth i Edrych Amdano ⇧

Gellir dod o hyd i nodweddion hanesyddol ledled Cymru a gall yr astudiaethau mewn ardal amrywio o ychydig strydoedd i drefi a thirweddau cyfan. Nid yw'n anodd nodi'r elfennau hanfodol; yn eu plith mae'r canlynol.

1.2 Ffurf a Chynllun Cyffredinol Lle ⇧

Gall hyn fod wedi goroesi am gryn dipyn yn fwy nag adeiladau a nodweddion unigol. Gall patrwm anheddiad gael ei nodi ar sail yr unedau datblygu, siâp lleiniau adeiladu neu gaeau a'r berthynas rhwng adeiladau a mannau gwag. Mae'r elfennau hyn, ynghyd â nodweddion ffiniau a mannau agored, golygfeydd a'r rhwydweithiau ffyrdd a llwybrau, yn haeddu parch a gallant gynnig fframwaith unigryw i gyflwyno newid ynddo.

1.3 Adeiladau ⇧

Gall adeiladau sy'n ymddangos yn aneithriadol neu'n gyffredin fod yn hanfodol gymeriad lle. Gall eu cyfraniad fod yr un mor bwysig ag adeiladau hanesyddol neu dirnodau nodedig. Nodweddir y rhan fwyaf o leoedd gan eu traddodiadau adeiladu unigryw eu hunain sydd wedi datblygu dros gyfnod o amser mewn ymateb i anghenion pobl leol, argaeledd deunyddiau adeiladu, a datblygiad arddulliau, technegau a sgiliau lleol. Mae'n bwysig bod y traddodiadau hyn — a'r sgiliau i'w cynnal a gofalu amdanynt — yn cael eu cadw'n fyw ac yn cael eu defnyddio i ysbrydoli gwaith dylunio a datblygu newydd a dylanwadu arno.

1.4 Tirweddau sy'n Newid ⇧

Efallai fod rhannau mawr o Gymru yn edrych fel nad oes neb yn byw ynddynt nawr; ond mae pob rhan o'r dirwedd bron wedi'i newid gan bobl mewn rhyw ffordd. Mae olion y gweithgarwch blaenorol hwn yn cyfrannu at nodweddion hanesyddol a gallant fod ar sawl ffurf, gan gynnwys safleoedd hynafol yn amrywio o gylchoedd cytiau cynhanesyddol i weithfeydd haearn diwydiannol. Mae tystiolaeth o ddefnydd tir blaenorol — fel chwareli a mwyngloddiau, cloddiau a waliau cerrig — a seilwaith trafniadaeth — fel llwybrau troed, pontydd, ffyrdd, rheilffyrdd a chamlesi — i gyd yn adlewyrchu gweithgarwch dynol. Gall elfennau unigol gael eu diogelu a gall rhai tirweddau gael eu cofrestru, ond gall dull cyfannol o nodi a deall sut a pham bod nodweddion ardaloedd ar wahân wedi esblygu dros amser ysgogi mentrau rheoli ac adfywio.⁵

1.5 Hanes Cudd — Potensial Archeolegol ⇧

Gall fod gan hyd yn oed fannau gwag nodweddion cudd sy'n goroesi defnydd tir cynharach. Gall y rhain gael eu hailddarganfod drwy ymchwil a, lle bo'n briodol, eu diogelu neu eu defnyddio er mwyn llywio ac ysbrydoli gwaith datblygu neu ailddatblygu.

1.6 Straeon Pobl ⇧

Gall fod gan le draddodiadau diwylliannol pwysig, cysylltiadau llenyddol, artistig a gwleidyddol, neu gysylltiadau ag unigolion nodedig, sy'n ychwanegu at ei hunaniaeth.

Mae straeon am le a'i bobl yn aml yn cael eu trysori gan gymunedau lleol. Gall canfod ffyrdd o adrodd y straeon hyn, er enghraifft, drwy dywyslyfrau, apiau neu baneli gwybodaeth, gyfoethogi'r profiad o le i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Lle bynnag y byddwch yng Nghymru, mae'r elfennau hyn yn creu stori unigryw o bobl a lle. Bydd penderfyniadau am newid sy'n parchu tystiolaeth y stori hon yn meithrin hunaniaeth a natur unigryw leol.

Mae ffyrdd profedig da o gofnodi straeon pobl.⁶

2. Deall Nodweddion Hanesyddol \neg

Fel y mae gan ddealltwriaeth o nodweddion hanesyddol sawl defnydd, gall y gwaith dadansoddi gael ei wneud gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys swyddogion awdurdodau cynllunio lleol a chontractwyr ac ymgynghorwyr arbenigol. Gyda chymorth priodol gan yr awdurdod cynllunio lleol, ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru neu sefydliadau yn y trydydd sector (megis y cymdeithasau amwynder), gall grwpiau gwirfoddol lleol wneud cyfraniad gwerthfawr iawn drwy gynnal arolygon a llunio adroddiadau. Gall y dystiolaeth o nodweddion hanesyddol a gesglir fel hyn fod yn gadarn iawn.

2.1 Asesiad Manwl \neg

Drwy fynd ati i ddeall nodweddion hanesyddol mewn ffordd strwythuredig, ac mewn ffordd a all gael ei rhannu a'i deall gan bobl leol, cynllunwyr a datblygwyr, gellir creu sail dystiolaeth gadarn a all gael ei defnyddio'n gadarnhaol i annog cadwraeth ac ysbrydoli newid priodol. Er enghraifft, gall lywio datganiadau ardal a chynlluniau llesiant lleol (gweler adrannau 3.1 a 3.2), cynlluniau datblygu lleol a chynlluniau lle. Gall hefyd gefnogi mentrau adfywio penodol, fel Treftadaeth Treflun neu raglenni adnewyddu tai.

2.2. Ymgysylltu â'r Gymuned \neg

Gall astudio nodweddion hanesyddol esgor ar wybodaeth leol sydd gan bobl yn aml ar ffurf atgofion, profiadau ac arsylwadau, ond sydd heb eu hysgrifennu i lawr yn aml. Prin y caiff y dystiolaeth werthfawr hon ei chydgyssylltu, sy'n golygu nad yw'n hygyrch i'r gymuned na'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, pobl leol yw un o'r ffynonellau gwybodaeth gorau ac, unwaith y cânt yr adnoddau cywir a'r hyfforddiant priodol, maent yn barod i astudio nodweddion hanesyddol lleol ac yn gallu gwneud hynny.⁷

Gall cynnwys y gymuned leol annog pobl i feithrin eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'u lle, gan helpu i greu ymdeimlad o berchenogaeth a balchder lleol. Gall helpu grwpiau lleol i ddylanwadu'n fwy ar benderfyniadau a darparu ffocws i gynnwys cymunedau yng ngofal beunyddiol lleoedd.

Gall deall nodweddion hanesyddol hefyd greu cyfleoedd i bobl leol ddatblygu neu ddysgu sgiliau newydd. Gall y rhain amrywio o sgiliau adeiladu traddodiadol a chynnal teithiau tywys i feithrin sgiliau dadansoddi a llunio adroddiadau.

2.3 Dechrau Arni ↵

Cyn dechrau dadansoddi nodweddion hanesyddol, mae'n syniad da gweld pa wybodaeth sydd ar gael eisoes.

2.3.1 Ffynonellau Gwybodaeth ↵

- Mae'r cofnod amgylchedd hanesyddol lleol yn fan cychwyn da i unrhyw un sydd am ddeall mwy am nodweddion hanesyddol ei ardal. Rheolir cofnodion amgylchedd hanesyddol gan y pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru. Mae Archwilio yn galluogi'r cyhoedd i weld y cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ar-lein.⁸
- Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yw archif genedlaethol amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n ffynhonnell dda o luniau a darluniau hanesyddol o leoedd yng Nghymru, gan gynnwys lluniau o'r awyr. Darperir mynediad ar-lein i'r cyhoedd drwy Coflein.⁹
- Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn cynnal ac yn datblygu porth Cymru Hanesyddol¹⁰ fel porth ar-lein i'r cofnodion cenedlaethol a rhanbarthol ar yr amgylchedd hanesyddol.
- Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) sydd â'r cofnodion terfynol ar gyfer adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Mae'r rhain ar gael drwy Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru.¹¹
- Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cadw cofnodion ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys arfamiadau a chynlluniau rheoli.¹²
- Mae Cadw wedi llunio adroddiadau ar nodweddion hanesyddol nifer o drefi yng Nghymru.¹³
- Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru wedi cynnal astudiaethau manwl o rai trefi hanesyddol hefyd.
- Mae'r gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth am y 58 o ardaloedd cofrestredig yng Nghymru a gellir ei gweld ar Cof Cymru. Mae ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru wedi nodi a dadansoddi ardaloedd â nodweddion tirwedd hanesyddol ar gyfer pob tirwedd hanesyddol gofrestrredig yng Nghymru.¹⁴
- Mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru yn cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf.¹⁵
- Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnal LANDMAP,¹⁶ sef adnodd tirwedd sylfaenol cydnabyddedig Cymru ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys gwybodaeth fapiedig ac arolwg am dirweddau hanesyddol a diwylliannol. Mae LANDMAP yn diffinio ardaloedd daearyddol ar wahân o dirwedd hanesyddol yn seiliedig ar nodi defnydd tir, patrymau a nodweddion hanesyddol. Darperir arolwg ar gyfer pob ardal sy'n nodi'r nodweddion hanesyddol. Gall yr ardaloedd hyn fod yn

addas i'w hastudio'n fanylach o ran eu nodweddion a gall y wybodaeth a gesglir gan LANDMAP fod yn fan cychwyn ar gyfer ymchwiliad manylach.

- Bu Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru yn gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol er mwyn llunio astudiaethau manwl o nodweddion sawl tref yng Nghymru
- Gwasanaethau archifau lleol, casgliadau amgueddfeydd, grwpiau hanes lleol a chanolfannau astudio.
- Archifau cenedlaethol gan gynnwys Yr Archifau Cenedlaethol, Llyfrgell Bodleian a'r Amgueddfa Brydeinig.

Mae astudiaethau sy'n bodoli eisoes yn adnodd gwerthfawr lle maent ar gael, ond ar gyfer llawer o leoedd, mae cyfleoedd i gyflwyno dealltwriaeth newydd o nodweddion hanesyddol, gan ddefnyddio pob un o'r ffynonellau hyn o wybodaeth, ar y cyd â gwybodaeth a gesglir drwy wneud gwaith arsylwi manwl yn y maes.

2.3.2 Pecynnau Cymorth ⇐

Mae rhai adnoddau ymarferol ar gael eisoes er mwyn helpu cymunedau i fynd ati i ddeall nodweddion hanesyddol, ond bydd yr union fanylion yn dibynnu ar ddiben yr astudiaeth.

Datblygodd Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru adnoddau er mwyn cynorthwyo pobl leol a grwpiau cymunedol i ymchwilio i nodweddion eu trefi mewn ffordd strwythuredig. Wedi'i foddelu ar y gyfres o astudiaethau deall nodweddion trefol a gynhaliwyd gan Cadw, mae, *Exploring Your Town: A Manual and Tool Kit*, yn esbonio elfennau cymeriad tref a sut i'w cofnodi.¹⁷

Mae Comisiwn Dylunio Cymru hefyd wedi llunio pecyn cymorth ymarferol er mwyn annog preswylwyr i archwilio a dadansoddi ble maent yn byw a chynllunio at ei ddyfodol.¹⁸ Fel cam cychwynnol, mae'n argymhell sefydlu tîm tref, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y trigolion lleol, busnesau, grwpiau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Gall adrannau curadurol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Rhydd eu hastudiaethau manwl o nodweddion tirwedd hanesyddol fodolau da ar gyfer cymunedau sy'n ymchwilio i'w treftadaeth leol.¹⁹

2.3.3 Adroddiadau Nodweddion Hanesyddol ⇐

Mae Cadw wedi astudio'r nodweddion hanesyddol mewn 14 o drefi ledled Cymru ac wedi cyhoeddi adroddiad ar bob un sydd ar gael ar wefan Cadw.²⁰ Gall y gwaith hwn gael ei ddefnyddio, nid yn unig ar gyfer gwybodaeth am leoedd penodol ond hefyd fel model ar gyfer astudiaethau lleol eraill. Mae'n bwysig nodi bod pob adroddiad wedi'i lunio am reswm penodol ac, felly, mae'r cynnwys a lefel y manylder yn amrywio fel y bo'n briodol.

Er y bydd gan bob dadansoddiad o gymeriad hanesyddol ei nodweddion a'i anghenion ei hun, mae rhai themâu cyffredin a fydd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o adroddiadau, sef:

- mae angen i nodau'r astudiaeth esbonio cynnwys a diben yr adroddiad
- datblygiad hanesyddol — gwreiddiau a chyfnodau datblygu a goroesi pwysig, a'u cyd-destun economaidd a chymdeithasol

- topograffi hanesyddol — maint a ffin, daeareg, nodweddion y dirwedd, lleoliad, ffurf a chynllun aneddiadau
- nodweddion strydoedd a lleoedd — lleiniau a gofod, ffiniau a llwybrau, golygfeydd a llwybrau dynesu, manau agored a gwyrdd
- nodweddion adeiladu — traddodiadau adeiladu (oedran, mathau ac arddulliau); ffurf a deunyddiau; manylion — toeon, ffenestri a drysau; adeiladau o bwysigrwydd lleol
- cysylltiadau hanesyddol — pobl, digwyddiadau a thraddodiadau
- ardaloedd â nodweddion — mae'r rhain yn rhannu'r ardal gyfan yn unedau llai o faint sydd â'u hunaniaeth eu hunain, a nodweddir gan y math o adeiladau, eu harddull neu eu cynllun, er enghraifft
- potensial archeolegol
- datganiad arwyddocâd
- ffynonellau — dylai'r rhain gofnodi o ble y daeth y wybodaeth
- mapiau — gallant fod yn fapiau hanesyddol neu fodern sy'n cofnodi nodweddion hanesyddol a gwaith datblygu, a'r ffordd y mae'r rhain wedi dylanwadu ar y cynllun presennol.

2.3.4 Cyllid ⇸

Efallai y bydd rhywfaint o gymorth ariannol ar gyfer gweithgarwch arolygu sy'n cynnwys y gymuned ar gael, er enghraifft, oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri.²¹

2.3.5 Beth i'w wneud â'ch Astudiaeth ⇸

Mae'n bwysig bod astudiaethau sydd wedi'u cwblhau ar gael yn hawdd i bawb. Dylid eu rhoi yn y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol priodol, a reolir gan un o bedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru.

3. Nodweddion Hanesyddol a Datblygu Cynaliadwy ⇸

Gall llawer o weithgareddau effeithio ar nodweddion hanesyddol. Gall datblygu ac ailddatblygu, adfywio ac adnewyddu oll naill ai atgyfnerthu neu danseilio nodweddion. Fodd bynnag, pan fydd y gweithgareddau hyn yn ystyried nodweddion hanesyddol lle — ac nid dim ond yr asedau dynodedig unigol — maent yn fwy tebygol o gael effaith gadarnhaol ar natur unigryw leol.

Nid oes a wnelo ymateb i nodweddion hanesyddol â chynnal lle mewn asbig a cheisio cadw popeth. Yn hytrach, mae a wnelo â rheoli newid fel ein bod yn cadw'r hyn sy'n gwneud lle yn arbennig a defnyddio gwaddol y gorffennol i lywio ac integreiddio datblygiad newydd, a nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau a newidiadau cadarnhaol.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy²² wrth wraidd y gwaith o gynllunio ar gyfer y Gymru rydym am fyw ynddi nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu llunio cynlluniau unedig hirdymor er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gall cydnabod a deall nodweddion hanesyddol gyfrannu at sail dystiolaeth y gwaith cynllunio cyfannol hwn.

3.1 Cydweithio'n Well: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ⇐

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno saith nod llesiant er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.²³

Dim ond drwy wneud ymdrech ar y cyd y gellir gwella llesiant Cymru. Mae'n ofynnol i 44 o gyrrff cyhoeddus unigol weithio mewn ffyrdd sy'n gwneud y canlynol:

- parchu ein hanghenion yn y dyfodol
- cynnwys y bobl y maent yn eu gwasanaethu
- cyfuno eu hymdrechion
- sicrhau manteision a rennir
- atal problemau rhag codi neu waethygu.

Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion y bwriedir iddynt sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Un o'r nodau yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a lle caiff ein treftadaeth ei hyrwyddo a'i diogelu.

Sefydlodd y Ddeddf fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru hefyd. Er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau, mae'n rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gyhoeddi asesiad o lesiant lleol ar gyfer ei ardal yn gyntaf.

Gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol gyfrannu at y sail dystiolaeth ar gyfer asesiad o dreftadaeth a helpu i nodi ardaloedd a allai gael eu hystyried gan gyrrff cyhoeddus unigol neu'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer camau gweithredu i'w cynnwys yn y cynllun llesiant lleol. Dadansoddiad sydd wedi'i lywio gan y gymuned a wnaiff fynegi blaenoriaethau lleol orau.

Wrth lunio cynlluniau datblygu lleol, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y cynlluniau llesiant lleol mwyaf diweddar yn yr ardal.

3.2 Rheoli Adnoddau Naturiol mewn Ffordd Gynaliadwy a Datganiadau Ardal ⇐

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016²⁴ yn rhoi deddfwriaeth ar waith i'w gwneud yn bosibl i adnoddau naturiol Cymru gael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Mae hefyd yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno fframwaith cenedlaethol clir ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy:

- mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn asesu sefyllfa adnoddau naturiol drwy gyflwyno tystiolaeth gyfredol
- mae'r Polisi Adnoddau Naturiol, a luniwyd gan Weinidogion Cymru, yn nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru, gan ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- bydd datganiadau ardal, a gaiff eu llunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, ar y raddfa briodol ar gyfer gweithredu er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau Gweinidog Cymru yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Caiff blaenoriaethau lleol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy eu nodi hefyd wrth i ddatganiadau ardal gael eu datblygu i lywio cynlluniau llesiant lleol. Caiff pob rhan o Gymru ei chwmpasu gan un neu ragor o ddatganiadau ardal.

Mae'n rhaid i asesiadau byrddau gwasanaethau cyhoeddus o lesiant lleol ystyried datganiadau ardal.

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried datganiadau ardal wrth lunio cynlluniau datblygu lleol.

3.3 Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygu ⇐

3.3.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol ⇐

Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn amlinellu polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Rhydd Nodiadau Cyngor Technegol gyngor cynllunio manwl i'w ddarllen ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru* wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol ac ystyried neu lunio ceisiadau cynllunio.

Mae Pennod 6 o *Bolisi Cynllunio Cymru* yn hyrwyddo dealltwriaeth o nodweddion hanesyddol er mwyn tynnu sylw at natur unigryw ardaloedd trefol a gwledig Cymru a llywio penderfyniadau am eu dyfodol.²⁵

Mae *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn nodi y dylai nodweddion hanesyddol gael eu hystyried wrth reoli newid er mwyn diogelu natur unigryw ardal leol ac ymdeimlad o le. Mae'n argymhell y dylid defnyddio dull gwrthrychol, strwythuredig o nodi elfennau nodweddion hanesyddol a chreu sail dystiolaeth.²⁶

3.3.2 Cynlluniau Datblygu Lleol ⇐

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynlluniau datblygu lleol sy'n ystyried datganiadau ardal, cynlluniau llesiant lleol a pholisi cynllunio cenedlaethol. Rhydd y cynlluniau hyn egwyddorion gwneud penderfyniadau o fewn y broses gynllunio a dyraniadau tir lleol.

Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisiâu i ddiogelu a gwella nodweddion a natur unigryw ardaloedd lleol, a hyrwyddo safonau dylunio uchel ar gyfer datblygiadau newydd ac adeiladau sy'n bodoli eisoes lle daw gwaith addasu, ymestyn a newid defnydd o fewn cwmpas y broses gynllunio. Rhoddir pwys ar bolisiâu o'r fath ochr yn ochr â pholisiâu

eraill cynlluniau datblygu yn y broses gynllunio ac maent yn ei gwneud yn bosibl i nodweddion hanesyddol gael eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio.

Mae angen sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y polisiâu hyn a gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol fod yn ddefnyddiol, yn enwedig pan fydd yn gysylltiedig â chanllawiau cynllunio atodol.

3.3.3 Canllawiau Cynllunio Atodol ⇐

Gall awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu canllawiau cynllunio atodol sy'n cefnogi polisiâu sy'n bodoli eisoes ar nodweddion a natur unigryw ardaloedd lleol yn y cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd. Mae canllawiau cynllunio atodol yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio a gallant helpu i egluro polisiâu fel eu bod yn cael eu deall yn dda ac y gellir eu rhoi ar waith yn effeithiol.²⁷

Gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol fod yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer canllawiau cynllunio atodol, a all fod yn benodol i safle, ardal neu bwnc, fel dylunio a'r amgylchedd adeiledig. Gall arfarniadau o ardaloedd cadwraeth a chynlluniau neu uwchgynlluniau rheoli a briffiau datblygu (gweler adran 3.3.5) hefyd gael eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol. Gall awdurdodau cynllunio lleol hefyd benderfynu mabwysiadu datganiad am nodweddion hanesyddol fel canllawiau cynllunio atodol i ategu polisiâu sydd eisoes i'w cael yn y cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd.

3.3.4 Cynlluniau Lleuedd ⇐

Mae cynlluniau lle yn annog cymunedau i chwarae mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau cynllunio lleol. Cânt eu paratoi gan gynghorau tref a chymuned gyda chymorth yr awdurdod cynllunio lleol. Mae cynlluniau lle yn cefnogi polisiâu a amlinellir yn y cynllun datblygu lleol ac a fabwysiadir gan ganllawiau cynllunio atodol sy'n golygu eu bod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gall cynlluniau lle gwmpasu amrywiaeth o faterion lleol; er enghraifft, gallent nodi manylion bach cynigion cynllunio er mwyn adlewyrchu natur unigryw leol neu gallent fod ar ffurf briff datblygu.

Mae'r ymarfer cynllunio lle yn gyfle da i feithrin dealltwriaeth y gymuned leol o nodweddion hanesyddol. Gallai'r sail dystiolaeth a fydd yn deillio o'r ymarfer hwnnw, a ddatblygir o fewn y gymuned ei hun, fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer cynlluniau lle.

3.3.5 Cynlluniau Meistr a Briffiau Datblygu ⇐

Bydd cynlluniau meistr a briffiau datblygu yn cael budd o fanylion bach am ardaloedd a safleoedd penodol. Gall dadansoddiad o nodweddion hanesyddol wneud cyfraniad pwysig at y broses hon. Gall roi cyfrif am strwythur a phatrwm sylfaenol, helpu i nodi beth sy'n bwysig, ac ystyried yr elfennau hynny sydd ar goll a'r rhai nad yw dynodiad statudol yn eu cydnabod. Gall dadansoddiad helpu i sefydlu fframwaith cyffredinol ar gyfer newid a llywio'r gwaith o ddatblygu egwyddorion dylunio sy'n parchu gwaddol y gorffennol ac yn atgyfnerthu natur unigryw.

Mae'n arfer da pennu dadansoddiad o nodweddion hanesyddol yn y briff ar gyfer unrhyw gynllun meistr a briff datblygu. Gellir mabwysiadu uwchgynlluniau a briffiau datblygu fel canllawiau cynllunio atodol, pan fydd y rhain wedi'u cysylltu â pholisiâu a dyraniadau defnydd tir mewn cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd.

3.4 Dylunio ↗

Mae *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* yn nodi amcanion ac egwyddorion ar gyfer gwneud gwaith dylunio da.²⁸ Cynnal neu wella nodweddion lleol yw un o'r amcanion a chydabyddir bod deall nodweddion hanesyddol yn un o egwyddorion sylfaenol y broses ddylunio.

Man cychwyn cyflwyno dyluniad da yw arfarnu cyd-destun ardal, gan gynnwys ei nodweddion, drwy dalu sylw i'w hanes, topograffeg, defnydd tir hanesyddol, patrymau stryd a chaeau, archaeoleg, pensaernïaeth a deunyddiau adeiladu, nodweddion unigryw a thraddodiadau — elfennau cynhenid y dirwedd a'i hadnoddau diwylliannol. Dylai'r broses o ddadansoddi nodweddion hanesyddol nodi nodweddion dylunio mewn ardal, nodweddion adeiladu a nodweddion dylunio trefol.

Nid yw hyn yn golygu mai pastiche neu gopi y dylai dyluniad fod ond dylai barchu'r cyd-destun lleol ac ymateb iddo; er enghraifft, o ran graddfa, mäs a gorweddiad. Gall dyluniad cyfoes ac arloesol wneud cyfraniad cadarnhaol at natur unigryw leol.

Gall arfarnu cyd-destun dyluniad lywio polisi cynllun datblygu lleol, canllawiau cynllunio atodol a briffiau datblygu, yn ogystal â cheisiadau am gynigion penodol. Dylai dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol fod yn rhan o'r broses arfarnu hon.

Mae hefyd yn bwysig annog perchenogion, tenantiaid ac asiantau i ddefnyddio deunyddiau a sgiliau sy'n gydnaws â nodweddion hanesyddol wrth wneud gwaith atgyweirio neu addasu nad oes angen cael unrhyw fath o ganiatâd ar ei gyfer. Gellir gwneud hyn drwy ganllawiau dylunio lleol a chanllawiau arfer gorau eraill megis canllawiau *Gofalu am... Cadw*.²⁹

Gall Comisiwn Dylunio Cymru gynghori ar ddylunio a chynllunio adeiladau cynaliadwy.³⁰

3.5 Cadwraeth ↗

Gall dadansoddiad manwl o nodweddion hanesyddol nodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Mae defnyddio dull strwythuredig o ddeall nodweddion hanesyddol yn hanfodol i ddynodi, arfarnu, rheoli ac adolygu ardal gadwraeth a gall hefyd gynnig cyfleoedd i gynnwys y gymuned.³¹ Mae awdurdodau cynllunio lleol yn dynodi ardaloedd cadwraeth ac yn rhoi caniatâd ardal gadwraeth.

Mae dadansoddiad o nodweddion hanesyddol hefyd yn sail ddefnyddiol i nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.³² Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi a diogelu ar lefel leol.

Weithiau, gall y dadansoddiad dynnu sylw at ased hanesyddol y dylai Cadw ei restru neu ei gofrestru ar ran Gweinidogion Cymru. Eglurir prosesau gofyn am ddynodiad cenedlaethol ar wefan Cadw.

3.6 Adfywio ↗

Dylai nodweddion hanesyddol fod yn elfen hanfodol o unrhyw gynlluniau adfywio ac adnewyddu. Yn ogystal â chreu natur unigryw a hunaniaeth, mae hefyd yn cyfrannu at ansawdd bywyd ac ansawdd lle. Gall treftadaeth hefyd lywio hyder a buddsoddiad o'r newydd yn y gymuned.


Gall asedau hanesyddol unigol fod yn ffocws buddsoddi penodol mewn adfywio, ond mae nodweddion hanesyddol i'w gweld ymhob man, waeth beth fo'u hoedran neu eu hansawdd canfyddedig. Mae'n rhan o hunaniaeth unigryw lle. Mae adnabod y nodweddion hynny a'u hatgyfnerthu neu eu hategu mewn datblygiad newydd yn helpu i gynnal natur unigryw. Rhydd hefyd gyfle i feithrin sgiliau ymgysylltu a datblygu, ac mae'n cefnogi llesiant cymunedau lleol.

Gall dadansoddiad o nodweddion hanesyddol helpu i gefnogi camau gweithredu cadarnhaol drwy:

- nodi nodweddion y dylid eu cadw neu eu parchu mewn cynlluniau adnewyddu mawr a bach, gan gynnwys patrymau datblygu unigryw, adeiladau penodol, neu draddodiadau adeiladu penodol
- awgrymu ardaloedd lle byddai cymorth grant neu gymhellion eraill fwyaf effeithiol. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gefnogwr brwd o ddeall nodweddion hanesyddol, a ddefnyddir ganddi er mwyn helpu i dargedu buddsoddiad.
- ysbrydoli gwaith dylunio arloesol o ansawdd uchel sy'n parchu nodweddion hanesyddol.

Atodiad 1

Defnyddio Nodweddion Hanesyddol — Diagram Cryno



Cyfeiriadau ↗

- 1 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>
- 2 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy>
- 3 *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 4 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>
Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/contents>
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>
- 5 Gellir ymgynghori â'r gofrestr o dirweddau hanesyddol ar Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>
Gofalu am Dirweddau Hanesyddol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2003
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/historiclandscapes/?skip=1&lang=cy>
- 6 Am gyngor ar gofnodi profiadau ac atgofion pobl, ymgynghorwch â Chymdeithas Hanes Llafar. ↗
<http://www.ohs.org.uk/>
- 7 Am gyngor ar ymgysylltu â'r cyhoedd, ewch i wefan Participation Cymru, sy'n cynnwys yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. ↗
<http://participation.cymru/cy/>
- 8 Mae Archwilio yn galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. ↗
www.archwilio.org.uk
- 9 Coflein ↗
<http://www.coflein.gov.uk/cy/>
- 10 Cymru Hanesyddol ↗
<http://www.historicwales.gov.uk/>
- 11 Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018. ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>
- 12 *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

- 13 Cadw Deall Nodweddion ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/?skip=1&lang=cy>
Gweler gwefannau ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru am astudiaethau o drefi hanesyddol.
- 14 Ewch i Cof Cymru am y tirweddau hanesyddol cofrestredig a gwefannau unigol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru am yr ardaloedd â nodweddion tirwedd hanesyddol. ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>
- 15 Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ↗
<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>
- 16 LANDMAP ↗
<http://lle.gov.wales/Catalogue?text=landmap&lang=cy>
- 17 *Exploring your Town: A Manual and Tool Kit*, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, 2013 ↗
- 18 *Shape my Town*, Comisiwn Dylunio Cymru, 2014 ↗
<http://www.shapemytown.org/about-1>
- 19 Am fethodoleg nodweddion tirwedd hanesyddol gweler *The Gwent Levels Historic Landscape Study: Characterization and Assessment of the Landscape*, Stephen Rippon, Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 1995 ↗
- 20 Cadw Deall Nodweddion ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/?skip=1&lang=cy>
- 21 Cronfa Dreftadaeth y Loteri ↗
<https://cymraeg.hlf.org.uk/>
- 22 Nod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw 'sichrau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.' Gweler adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. ↗
<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/5/enacted/welsh>
- 23 Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>
- 24 Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh>
- 25 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.3.5 ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>
- 26 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 1.14 ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 27 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 2: Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraffau 2.3.3 a 2.3.4 ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

28 *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* ⇐

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>

29 Mae Cadw, ynghyd â sefydliadau cadwraeth eraill megis Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol, Historic England a Historic Environment Scotland, yn llunio amrywiaeth o ganllawiau ar waith atgyweirio a chynnal a chadw. Gweler Cynnal a Chadw a Chadwraeth yn Rhagor o Wybodaeth. ⇐

30 Comisiwn Dylunio Cymru ⇐

<http://dcfw.org/>

Canllaw Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, 2014

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/practice-guidance-planning-for-sustainable-buildings/?skip=1&lang=cy>

31 *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ⇐

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

32 *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ⇐

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Rhagor o Wybodaeth ↵

Polisiâu ac Arweiniad Cynllunio

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>

Llywodraeth Cymru Canllawiau Arfer Gorau

Gofalu am Dirweddau Hanesyddol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2003

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/historiclandscapes/?skip=1&lang=cy>

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>

Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses Gynllunio a Datblygu, Ail Argraffiad, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/historiclandscapes/?skip=1&lang=cy>

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llundio a Defnyddio (Canllaw Statudol) Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Pecynnau Cymorth

Exploring your Town: A Manual and Tool Kit, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, 2013

Shape my Town Toolkit

<http://www.shapemytown.org/about-1>

Adroddiadau Nodweddion Trefol Cadw

Aberdâr: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/aberdare/?skip=1&lang=cy>

Aberystwyth: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2013

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/aberystwyth/?skip=1&lang=cy>

Ynys y Barri: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2016

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/barryisland/?skip=1&lang=cy>

Blaenau Ffestiniog: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/blaenauffestiniog/?skip=1&lang=cy>

Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/caernarfonwaterfront/?skip=1&lang=cy>

Cefn Mawr a'r Cylch: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2014

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/cefn-mawr-and-district/?skip=1&lang=cy>

Dinbych: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/denbigh/?skip=1&lang=cy>

Dolgellau: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/dolgellau/?skip=1&lang=cy>

Y Fflint: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/flint/?skip=1&lang=cy>

Hafod a Chwm Tawe Isaf: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2016

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/Hafodandthelowerswanseavalley/?lang=en>

Llangollen: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2016

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/llangollen/?lang=en>

Merthyr Tudful: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2015

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/merthyrtydfil/?skip=1&lang=cy>

Penfro: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2015

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/pembroke/?skip=1&lang=cy>

Pont-y-pŵl: Deall Nodweddion Trefol, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2012

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/regenerationandsustainability/understandingcharacter/pontypool/?skip=1&lang=cy>

Cynnal a Chadw a Chadwraeth

Mae Cadw wedi cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau ar ofalu am wahanol fathau o adeilad, eu gwarchod a'u haddasu. Mae'r rhain ar gael ar-lein yn:

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

BS7913 Guide to the Conservation of Historic Buildings

<http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=000000000030248522>

Historic England <https://historicengland.org.uk/advice/your-home/>

Historic Environment Scotland <https://www.engineshed.org/>

Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol <http://www.ihbc.org.uk/>

Cynnal a Chadw!

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/lookingafteryourproperty/maintenancematters/?skip=1&lang=cy>

Ffynonellau o Wybodaeth Hanesyddol

Archifau Cymru — Catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol sy'n cael eu cadw gan 21 o archifau Cymru.

<https://archifau.cymru/>

Archwilio — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. www.archwilio.org.uk

Llyfrgell Bodleian <http://www.bodleian.ox.ac.uk/>

Cof Cymru — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau a warchodir, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018.

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>

Coflein — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Cynefin — adnodd ar-lein i chwilio mapiau degwm Cymru a'u mynegeion.

<http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/>

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol.
<http://cymruhanesyddol.gov.uk>

LANDMAP — yr adnodd tirwedd sylfaenol ar-lein a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyhoeddir setiau data LANDMAP hefyd i'w lawrlwytho i'w defnyddio mewn System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar <http://lle.gov.wales/Catalogue?text=landmapng%3dcy&lang=cy>
Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Hanesyddol
Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Methodoleg LANDMAP: Canllawiau i Gymru. Tirwedd Diwylliannol

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf.
<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Yr Amgueddfa Brydeinig <http://www.britishmuseum.org/>

Yr Archifau Cenedlaetho — archif swyddogol llywodraeth y DU.
<http://www.nationalarchives.gov.uk/>

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
<https://www.llgc.org.uk/cy/>

Cysylltiadau ↗

Llywodraeth Cymru

Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)

Plas Carew

Uned 5/7 Cefn Coed

Parc Nantgarw

Caerdydd

CF15 7QQ

Ffôn. 03000 256000

cadw@cymru.gsi.gov.uk

www.gov.wales/cadw

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU

Ffôn. 01970 621200

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

www.cbhc.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Gallwch drefnu ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle bydd staff yn egluro'r adnoddau sydd ar gael yn y Cofnod Henebion Cenedlaethol ar gyfer ymchwilio i nodweddion hanesyddol, gan gynnwys mapiau hanesyddol, lluniadau, ffotograffau a chofnodion arolygon.

Cyfoeth Naturiol Cymru

d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

<http://cyfoethnaturiol.cymru/>

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu gwybodaeth a chyngor ar ddefnyddio gwybodaeth hanesyddol a diwylliannol LANDMAP am dirweddau a morweddau.

Gronfa Loteri Fawr

<https://cymraeg.hlf.org.uk/>

Comisiwn Dylunio Cymru

4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL

Ffôn: 029 2045 1964

connect@dcfw.org

<http://dcfw.org/>

Gall Comisiwn Dylunio Cymru ddarparu cyngor a chanllawiau ar gynigion dylunio.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR

Ffôn. 01938 553670

trust@cpat.org.uk

http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE

Ffôn. 01558 823121

info@dyfedarchaeology.org.uk

www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent

Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL

Ffôn. 01792 655208

enquiries@ggat.org.uk

http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT

Ffôn. 01248 352535

gat@heneb.co.uk

www.heneb.co.uk

Cymdeithasau Amwynder

Y Gymdeithas Henebion

<http://ancientmonumentsociety.org.uk/>

Y Cyngor Archeoleg Brydeinig

<http://new.archaeologyuk.org/>

Y Grŵp Sioraidd

www.georgiangroup.org.uk

Y Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol

<https://www.spab.org.uk/>

Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif

www.c20society.org.uk

Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
<http://www.theatretrust.org.uk/>

Cymdeithas Oes Fictoria
www.victoriansociety.org.uk

Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
<http://www.whgt.org.uk/>

Dolenni o'r ddogfen hon

Lle mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partïon, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau y ceir dolenni iddynt ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.